
Datganiad yn dod â'r Parth Gwarchod a'r Parth Gwylidwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO2453945823 i ben.

Cadarnhaodd Prif Swyddog Milfeddygol Cymru fod y fflw adar pathogenig iawn yn bresennol ar safle yn Lloegr yn unol ag erthygl 28(1) o Orchymyn Fflw Adar a Fflw sy'n Deillio o Adar mewn Mamaliaid (Cymru) (Rhif 2) 2006¹ ("y Gorchymyn").

Yn unol â'r erthyglau 28(2), 29(1) a (2), 30(1) a 31(1) o'r Gorchymyn, cyhoeddodd Gweinidogion Cymru Barth Gwarchod a Pharth Gwylidwriaeth â'i ganolbwynt yng nghyfeirnod grid SO2453945823 ar 21:30 ar 10 Rhagfyr 2021.

Yn unol ag erthygl 36(1) o'r Gorchymyn, mae'r Gweinidogion Cymru yn datgan bod y Parth Gwarchod yn dod i ben. Mae o leiaf 21 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhad y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ac mae ymchwiliad milfeddygol wedi cymryd lle ar bob safle o fewn y parth sy'n cadw dofednod neu adar caeth arall.

Yn unol ag erthygl 36(3) o'r Gorchymyn, mae'r Gweinidogion Cymru hefyd yn dod â'r Parth Gwylidwriaeth hwnnw i ben. Mae o leiaf 30 diwrnod wedi mynd heibio ers cwblhad y mesurau glanhau a diheintio rhagarweiniol y cyfeirir atynt yn Rhan 2 o Atodlen 3 i'r Gorchymyn, ym mhob safle heintiedig yn y parth hwnnw.

Mae'r holl dermau a ddefnyddir yn y Datganiad hwn wedi'u diffinio yn y Gorchymyn.

Daw'r Datganiad hwn i rym ar 17:00 ar 25 Ionawr 2022.

Llofnodwyd: Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol Cymru

Dyddiedig: am 16:10 ar 25 Ionawr 2022

O dan awdurdod y Gweinidog Materion Gwledig a'r Gogledd, a'r Trefnydd

¹ Rh.S. 2006/2927 (Cy. 262).

Copies of this Declaration and of the Order are available at the Welsh Government [webpages](#) and from the Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.